

## Uned 23

### Defnydd Diogel o Feddyginiaethau Milfeddygol

#### Taflen Wybodaeth

#### Cyflwyniad

Mae meddyginiaethau milfeddygol yn cynnwys antibiotigau, brechlynnau, llynghyrwr (anthelmintigau) ac ectoparasitoleiddiaid megis dipiau defaid.

Mae hawl gan ffermwyr roi meddyginiaethau milfeddygol cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â Chyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.

#### Pwyntiau Allweddol mewn Defnydd Diogel o Feddyginiaethau Milfeddygol

#### Canllawiau ar gyfer Arfer Dda

- Gwnewch gynllun iechyd ymlaen llaw i atal clefydau
- RHAID i'r cynllun iechyd fod yn un gweithredol a rhaid glynu wrtho'n glos
- Ymgynghorwch â'ch milfeddyg pan rydych angen diagnosis ar unrhyw broblem iechyd anifail
- Prynwch feddyginiaethau oddi wrth eich milfeddyg, fferyllfa, neu fasnachwr amaethyddol cofrestredig yn y DU
- Defnyddiwch feddyginiaethau anifeiliaid awdurdodedig yn unig
- Prynwch ddigon o'r feddyginiaeth briodol sydd eu hangen, dim ond ar gyfer ei defnyddio'n syth
- Cadwch gofnodion priodol - mae'n ofyniad cyfreithiol
- Osgowch ddefnyddio'r meddyginiaethau'n ddiangen
- Darllenwch y cyfarwyddiadau'n ofalus, yn cynnwys y label, taflen gynnyrch a'r daflen ddata diogel
- Peidiwch â defnyddio meddyginiaeth sydd wedi pasio dyddiad dod i ben
- Cwblhewch y rhaglen driniaeth bob amser
- Sylwch yn fanwl gywir ar y label am unrhyw gyfnod lle nad oes angen rhoi'r feddyginiaeth
- Storiwch y meddyginiaethau yn ôl y cyfarwyddiadau sydd ar y label
- Sicrhewch fod eich meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel a chywir.

#### Arfer Pigiadu Da

Mae'r rheolau syml canlynol yn help i leihau'r peryglon o ymledu haint wrth roi pigiadau unigol neu luosog:

- Dylid defnyddio nodwyddau tafladwy lle bynnag posibl
- Sicrhewch fod yr holl offer (nodwyddau, chwistrellau, pibelli ayb) yn cael eu glanhau a'u sterileiddio\* cyn ac ar ôl eu defnyddio
- Os ydych yn defnyddio chwistrell sydd angen ei llenwi o'r botel rhwng dosau, defnyddiwch un nodwydd ddi-haint, a'i gadael yn y botel er mwyn llenwi'r chwistrell, a defnyddiwch nodwydd wahanol wedi'i sterileiddio i bigiadu'r anifail
- Defnyddiwch nodwydd ddi-haint i bigiadu - byddai'n well defnyddio nodwydd newydd ar gyfer pob anifail
- Sicrhewch eich bod yn gwybod sut i roi'r pigiad

- Sicrhewch fod gennych y gyfradd ddosio gywir
- Pigiadwch drwy groen mewn man glân, sych
- Peidiwch â phigiadu drwy groen gwlyb, budr
- Dylid dinistrio poteli brechlynnau sydd wedi hanner eu defnyddio yn ddiogel, ac ni ddylid eu defnyddio eto
- Os ydych chi'n pigiadu eich hun, yna ceisiwch gyngor meddygol yn syth.

**Yn olaf**

**Y RHEOL EURAIDD**

**DARLLENWCH LABEL Y FEDDYGINIAETH – mae pob un yn wahanol!**